Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Llanymddyfri

**Queensway**
**Llanymddyfri**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA20 0EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Llanymddyfri

Mae Coleg Llanymddyfri yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl gydaddysgol annibynnol a sefydlwyd ym 1848. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin, ac mae'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 18 mlwydd oed.

Mae 248 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 42 o ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol. Mae 206 o ddisgyblion yn yr ysgol hŷn, yn cynnwys 89 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae tua thri o bob pum disgybl yn fechgyn, er bod yr union gydbwysedd yn amrywio mewn gwahanol grwpiau oedran ar draws yr ysgol.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r ardal leol ehangach sy'n ymestyn o Lanelli, Rhydaman a Llanbedr Pont Steffan i Sir Gaerfyrddin, a thuag at Sir Benfro. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ddisgyblion preswyl ac yn dod o Gymru, rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thramor.

Mae Coleg Llanymddyfri yn addysgu disgyblion ag amrywiaeth eang o alluoedd. Mae gan ryw un o bob pum disgybl anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys dyslecsia a chyflwr y sbectrwm awtistig. Mae gan bum disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2013. Ers yr arolygiad hwnnw, mae'r tîm arweinyddiaeth wedi newid yn sylweddol. Penodwyd y warden ym mis Medi 2019, a phenodwyd y dirprwy warden i'w swydd yn y flwyddyn flaenorol.

## Crynodeb

Yn y tair blynedd ddiwethaf, mae Coleg Llanymddyfri wedi wynebu heriau sylweddol, gan gynnwys pandemig COVID-19. Ymatebodd yr ysgol yn gyflym i'r pandemig, gan roi cyfleoedd gwerth chweil i'r holl ddisgyblion barhau â'u dysgu ar-lein. Bu llawer o newidiadau yn yr ysgol hefyd, gan gynnwys penodi warden newydd, ailstrwythuro'r tîm arweinyddiaeth, newidiadau i'r cwricwlwm a chyflwyno strwythur cyfadrannau a thai.

At ei gilydd, mae safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn addas. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cryf iawn, ac fe gaiff hyn ei hwyluso gan ymagwedd hyblyg iawn at ddarparu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud cynnydd cystal ag y dylent nac yn defnyddio eu medrau i lefel sy'n cyfateb i'w gallu.

Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn bod yn rhan o gymuned eu hysgol. Ar draws yr ysgol, mae gan ddisgyblion berthnasoedd gweithio cryf â staff ac mae hyn yn cyfrannu at eu hagweddau cadarnhaol at ddysgu. Ceir ffocws cryf ar draws yr ysgol ar les disgyblion, ac mae llawer o ddisgyblion yr ysgol hŷn yn arbennig yn gwerthfawrogi'r sesiynau cyfoethogi yn yr amserlen.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno cwricwlwm 'blynyddoedd canol' ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 lle mae athrawon yn defnyddio dull yn seiliedig ar destun. Caiff y cwricwlwm yn yr ysgol hŷn ei adolygu a'i fireinio'n rheolaidd i adlewyrchu diddordebau a galluoedd disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth chwaraeon ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Mae disgyblion, staff a rhieni yn falch o'r cyfleoedd a ddarperir i ddisgyblion gynrychioli eu hysgol, yn ogystal â thimau rhanbarthol a chenedlaethol, mewn amrywiaeth eang o chwaraeon. Yn ychwanegol, ceir cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynyrchiadau ysgol neu ganu yn un o gorau'r ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad cryf ac mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r ysgol. Megis dechrau datblygu y mae ymagweddau arweinwyr at werthuso agweddau pwysig ar waith yr ysgol, gan gynnwys effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae Coleg Llanymddyfri yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, sydd eu hangen i gynnal cofrestriad.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Darparu gwybodaeth**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu, yn arbennig i herio disgyblion mwy abl, gan ddysgu o arfer orau yn yr ysgol

A2 Sicrhau bod prosesau cynllunio gwelliant yr ysgol yn cynnwys ffocws clir ar effaith ei darpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, dylai ddosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r cynnydd cryf a wna llawer o ddisgyblion hŷn a'r rhai ag ADY yn cysylltu'n agos â'r cwricwlwm pwrpasol sydd wedi'i deilwra'n dda yn yr ysgol hŷn. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud cynnydd cystal ag y dylent neu'n defnyddio eu medrau i lefel sy'n cyfateb i'w gallu. Nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn herio'r disgyblion hyn yn ddigon da i feddwl yn ddyfnach neu gymhwyso eu dysgu yn annibynnol mewn senarios mwy cymhleth.

Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol fedrau cyfathrebu tra datblygedig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn huawdl, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth ymateb i gwestiynau yn y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion yn rhannu eu barn yn frwdfrydig â'u cyfoedion a'r athro. Er enghraifft, cafodd Blwyddyn 13 drafodaeth drylwyr am effaith deddfwriaeth trosedd ac anhrefn o ran achos Sarah Everard. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn yr ysgol ganol yn dangos medrau gwrando gweithredol cryf ac mae ychydig ohonynt yn adeiladu'n dda ar y pwyntiau a wneir gan eu cyfoedion i ddatblygu dealltwriaeth soffistigedig o ystyr y testun sy'n cael ei astudio. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn gwrando'n ddigon da pan fydd pobl eraill yn siarad.

At ei gilydd, wrth i ddisgyblion symud yn eu blaenau trwy'r ysgol, mae eu medrau darllen o leiaf yn briodol i'w hoedran a'u gallu, ac yn eu galluogi'n llwyddiannus i ddefnyddio deunyddiau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn darllen ac yn dadansoddi polisïau'r llywodraeth yn hyderus ac yn defnyddio'u dealltwriaeth i aralleirio'r wybodaeth yn eu geiriau eu hunain i ffurfio sylfaen dadl.

Mae safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol yn briodol ar gyfer oedran a gallu disgyblion. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth o ansoddeiriau addas i ddisgrifio unigolyn. Erbyn Blwyddyn 9, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos datblygiad effeithiol o ran eu medrau ysgrifennu traethawd, wrth ymateb i'r cwestiwn, 'Pam daeth Hitler i rym?'. Ym Mlwyddyn 11, mae llawer o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth gref o sut i ddadansoddi testunau, gan gynnwys dramâu a barddoniaeth. Mae gan y disgyblion hyn fedrau gwerthuso cryf a'r gallu i asesu iaith, strwythur ac arddull darn o ysgrifennu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd sydd ar y lefel ddisgwyliedig. Mae bron pob un o'r disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn adnabod gwahanol fathau o onglau. Mae llawer ohonynt yn gyfarwydd ag iaith fathemategol gysylltiedig fel llorweddol, fertigol, paralel a pherpendicwlar. Pan roddir cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 9, mae llawer o ddisgyblion yn galw ffeithiau mathemategol allweddol i gof yn gyflym ac yn gywir, ac yn eu cymhwyso'n addas yn ystod gwersi. Er enghraifft, maent yn cyfrifo'r newid canran yn gywir ar gyfer cyd-destunau go iawn fel y cynnydd a'r gostyngiad mewn

biliau aelwyd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn yr ysgol hŷn yn meddu ar fedrau rhifedd cadarn y maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau digidol bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu o ganlyniad i'r ddarpariaeth effeithiol a wnaed gan yr ysgol yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu'n effeithiol, cwblhau eu gwaith, ac ar gyfer ymchwil.

Pan roddir cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol ac artistig cryf, er enghraifft wrth archwilio technegau Emil Nolde neu wrth gyfansoddi ar gyfer y piano gan ddefnyddio cân Gymraeg fel symbyliad.

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn amrywiaeth o chwaraeon, gan gynnwys rygbi, yn eithriadol o uchel. Mae datblygiad medrau corfforol disgyblion, yn enwedig yn yr ysgol hŷn, yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac mae ganddynt synnwyr cryf o berthyn, sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu lles. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel a saff, ac yn hyderus fod yna oedolyn y gallant siarad ag ef a fyddai'n delio ag unrhyw bryderon ar unwaith, pe bai angen.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion wrth iddynt symud o gwmpas yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl a rhwng gwersi yn eithriadol o dda. Maent yn deall diben rheolau a chosbau, ac fe gaiff disgyblion iau yn arbennig eu cymell yn dda gan y system wobrau.

Mae disgyblion sydd â rolau cyfrifol yn ymfalchïo yn eu rolau ac yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar waith yr ysgol a lles disgyblion eraill. Er enghraifft, mae swyddogion yn creu cyfrif ar gyfryngau cymdeithasol i alluogi disgyblion hŷn i gyflwyno ceisiadau neu syniadau yn ddienw, ac yn cymryd rhan mewn arolygon am eu hiechyd meddwl. Arweiniodd hyn at newidiadau sylweddol yn y rhaglen les. Caiff y gallu hwn i ddylanwadu ar waith yr ysgol ei amlygu ymhellach gan yr ymgyrch lwyddiannus a arweinir gan y tîm arweinyddiaeth disgyblion i drefnu bod cynhyrchion mislif am ddim ar gael ar draws yr ysgol, gan gynnwys mynnu y dylai'r rhain fod ar gael yn yr ysgol baratoadol hefyd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno swyddi swyddogion eco, er mai megis dechrau datblygu y mae eu gwaith.

Mae mwyafrif y disgyblion oedran uwchradd yn cyfrannu eu barn yn hyderus at y cyngor ysgol, ac yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, a bod camau addas yn cael eu cymryd i ymateb. Er enghraifft, ailagorodd yr ysgol ystafelloedd cyffredin y tŷ preswyl yn dilyn ymgyrch a drefnwyd gan y cyngor ysgol. Mae disgyblion yn yr ysgol baratoadol yn defnyddio'r 'blwch post awgrymiadau', sy'n helpu sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Er enghraifft, mae hyn wedi arwain at ychwanegu pegiau i ddal cotiau y tu allan i'r neuadd fawr yn ddiweddar i ddisgyblion hongian eu cotiau pan fydd rhaid iddynt gerdded draw yn y glaw i gael eu prydau bwyd.

Mae hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gan yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd diet iach. Mae bron

pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau addysg gorfforol a chwaraeon mewn gwersi a chlybiau cyd-gwricwlaidd fel ei gilydd, ac yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus, llawer ohonynt i safon uchel iawn. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, o Flwyddyn 5 ymlaen, yn aelodau o dîm chwaraeon, sy’n brofiad y maent yn ei werthfawrogi’n fawr ac yn uchel ei barch ar draws yr ysgol. Mae pob un o ddisgyblion Blwyddyn 9 yn cymryd rhan yn y llu cadetiaid cyfunol, a llawer ohonynt yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin. Mae’r cyfleoedd hyn yn annog lles corfforol a datblygiad medrau arwain y disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn drama a cherddoriaeth, gan gynnwys trwy’r cynyrchiadau ysgol rheolaidd a’r corau, sy’n perfformio’n rheolaidd mewn gwasanaethau a chyngherddau. Hefyd, mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn yr ‘wythnos weithgareddau’ flynyddol, gan gynnwys ymweliadau â’r Ardd Fotaneg a Thraeth Llansteffan.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddiried yn eu hathrawon ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio adeiladol â nhw. Mewn gwersi a gweithgareddau cyd-gwricwlaidd, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn mynd ati’n gyflym i wneud y dasg. Mae llawer ohonynt yn canolbwyntio am gyfnod amser estynedig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae’r mwyafrif ohonynt yn ymroi’n dda ac yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’r gweithgareddau a ddarperir. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn dangos hyder wrth gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae gan lawer ohonynt agwedd barchus a chefnogol tuag at gyfraniadau eu cyfoedion, er enghraifft wrth ddatblygu a thrafod eu rhagfynegiadau eu hunain am ddiweddgloeon posibl i nofel gyda’u dosbarth. Fodd bynnag, yn ystod trafodaethau dosbarth, nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn aros eu tro i gyfrannu neu’n rhoi digon o amser i eraill rannu eu syniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau rhoi cynnig ar syniadau a thechnegau newydd, ac yn aml mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu o gamgymeriadau. Mae ychydig o ddisgyblion yn ddysgwyr myfyriol ac yn defnyddio adborth yn effeithiol i wneud cynnydd yn eu dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dangos gwydnwch y tu allan i’r ystafell ddosbarth, gan ddysgu rheoli siom yn effeithiol, er enghraifft wrth wynebu cystadleuaeth galed am le yn y tîm chwaraeon. Yn ystod gwersi yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau i gwblhau tasgau cymhleth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol, ac os oes diffyg her yn yr ystafell ddosbarth, mae hyn yn cyfyngu ar ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, rhag datblygu i fod yn ddysgwyr galluog a gwydn.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio’r medrau dysgu annibynnol y gwnaethant eu datblygu yn ystod pandemig COVID-19 yn effeithiol ar gyfer gwaith dosbarth a gwaith cartref fel ei gilydd, er enghraifft wrth drefnu eu nodiadau mewn gofod ar-lein. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio technoleg yn briodol yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth ymchwilio a defnyddio adnoddau ar-lein wedi’u dylunio’n arbennig. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli ffocws mewn gwersi o bryd i’w gilydd gan eu bod yn cael eu tarfu gan y dechnoleg y maent yn ei defnyddio, ac nid ydynt yn cwblhau’r dasg a osodwyd.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Yn yr ysgol baratoadol a'r ysgol ganol (Blynyddoedd 7 ac 8), mae athrawon yn defnyddio dull yn seiliedig ar destunau i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae hyn yn darparu addysg eang a chytbwys ar gyfer yr holl ddisgyblion. Yn y blynyddoedd canol, mae'r testunau cwricwlwm a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn darparu cyfleoedd hynod werth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ymholi a meddwl beirniadol. Yn ychwanegol, mae pob un o'r disgyblion hyn yn dysgu Cymraeg a Ffrangeg. Mae'r ysgol wedi diwygio'i chynllun addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn ddiweddar, ac mae hyn yn bodloni anghenion disgyblion yn briodol. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau addysg gorfforol, gan gynnwys chwaraeon a nofio. Mae disgyblion iau yn yr ysgol baratoadol yn elwa ar gael cyfle bob pythefnos i ddysgu y tu allan ar dir helaeth yr ysgol, er enghraifft trwy ddarpariaeth yr ysgol goedwig. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ar draws yr ysgol baratoadol ddysgu yn yr awyr agored.

Mae athrawon yn yr ysgol baratoadol yn darparu gweithgareddau buddiol sy'n canolbwyntio'n glir ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Yn y dosbarth cyn-baratoadol, mae disgyblion yn dysgu'n gyflym am y seiniau y mae llythrennau a llinynnau llythrennau'n eu gwneud, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i ddechrau darllen ac ysgrifennu'n annibynnol. Ar draws yr ysgol baratoadol, mae athrawon yn darllen nofel ddetholus ar goedd i'w dosbarth yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu cariad at ddarllen a phrofi llawenydd 'ymgolli mewn llyfr'. Mae'n eu paratoi'n dda ar gyfer eu hastudiaethau yn y dyfodol hefyd.

Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol a'r blynyddoedd canol ddatblygu eu medrau mathemategol a rhifedd yn llai datblygedig. Nid yw gweithgareddau bob amser yn herio disgyblion mwy abl i weithio ar lefel ddigon uchel. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn colli cymhelliant ac nid yw eu cynnydd bob amser yn ddigon cryf.

Mae'r ysgol hŷn yn darparu cwricwlwm hyblyg sydd wedi'i deilwra i ddiddordebau a galluoedd disgyblion o Flwyddyn 9 ymlaen. Ceir ystod eang o gyrsiau TGAU. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o opsiynau yn y chweched dosbarth ar gyfer disgyblion, sy'n eu galluogi i gyfuno a chydweddu cyrsiau Safon Uwch a BTEC. Yn ychwanegol, mae pob un o'r disgyblion yn elwa ar raglen les werth chweil a chyngor gyrfaoedd personoledig.

Ar draws yr ysgol, caiff y cwricwlwm ei ymestyn trwy ystod helaeth o weithgareddau cyd-gwricwlaidd sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau artistig, creadigol, gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, ceir rhaglen gynhwysfawr ynglŷn â'r celfyddydau perfformio, ac mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y llu cadetiaid cyfunol a chynllun Gwobr Dug Caeredin.

Mae'r ysgol yn falch o'i threftadaeth rygbi elitaidd ac mae cyn-ddisgyblion diweddar yn parhau i gynrychioli eu timau cenedlaethol. Yn ogystal â'r ddarpariaeth rygbi

drawiadol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn amrywiaeth eang o chwaraeon tîm a chwaraeon unigol, er enghraifft pêl-rwyd, hoci, sgïo a saethu â reiffl.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys ac yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cyflwyno esboniadau clir ac amyneddgar am y gweithgareddau, ac yn dangos cysyniadau i helpu disgyblion ddeall eu dysgu. Maent yn strwythuro gwersi'n ofalus fel bod disgyblion yn meithrin eu medrau, gwybodaeth a hyder trwy dasgau ymarfer wedi'u sgaffaldio, cyn ceisio cymhwyso eu dysgu. Mae bron pob un o'r athrawon yn addasu adnoddau'n dda i gynorthwyo disgyblion, yn enwedig y rhai ag ADY, i gymryd rhan yn y dysgu.

Mae tua hanner yr athrawon yn darparu cyflymdra a her addas yn ystod eu gweithgareddau i sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau a gwybodaeth briodol. Mae'r athrawon hyn yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn, y maent yn ei defnyddio'n effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu diddordeb yn y pwnc a dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau allweddol ac egwyddorion ehangach.

Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau tua hanner yr athrawon o'r hyn y gall disgyblion mwy abl ei gyflawni yn ddigon uchel. O bryd i'w gilydd, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau. O ganlyniad, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud cynnydd digon cryf.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhoi adborth priodol i'w disgyblion yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mewn tua hanner yr achosion ac yn arbennig yn yr ysgol baratoadol, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i adborth ysgrifenedig eu hathrawon, ac mae hyn yn eu helpu i wneud cynnydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, er bod athrawon yn rhoi canmoliaeth hael am y gwaith yn llyfrau disgyblion, nid ydynt yn rhoi adborth digon manwl gywir yn ysgrifenedig nac ar lafar i sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i'w helpu i wella'u gwaith.

Mae adroddiadau i rieni yn llawn gwybodaeth. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw'r sylwadau'n canolbwyntio'n ddigon da ar gyflawniadau a chynnydd disgyblion unigol. Yn yr ysgol baratoadol, nid yw adroddiadau'n cynnwys targedau na'r camau nesaf ar gyfer y disgyblion. Yn y sector uwchradd, nid yw'r targedau bob amser yn ddigon manwl i roi gwybod i ddisgyblion beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les yr holl ddisgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae tîm bugeiliol yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod lles disgyblion unigol a rhannu arfer dda o ran cefnogi anghenion emosiynol disgyblion. Caiff staff hyfforddiant rheolaidd ar les ac iechyd meddwl, er enghraifft sut i gynorthwyo disgyblion â galar a thrawma arall.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder hefyd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae tîm hyfforddedig o staff yn cynorthwyo'r disgyblion hyn yn effeithiol trwy gynnig darpariaeth bwrpasol iddynt i fodloni eu hanghenion unigol. Parhaodd y ddarpariaeth hon ar-lein yn ystod pandemig COVID-19, gan roi parhad a chymorth buddiol i'r disgyblion hyn. Mae gan bob disgybl ar gofrestr ADY yr ysgol broffiliau disgybl defnyddiol, sy'n canolbwyntio'n glir ar wybodaeth bwysig am eu hanghenion unigol. Er bod gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sydd â chynllun addysg unigol y mae staff yn ei ddiweddaru'n rheolaidd yn unol â chyfarfodydd adolygu blynyddol, nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn cynnwys targedau penodol na meini prawf llwyddiant mesuradwy. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i staff fesur cynnydd y disgyblion hyn tuag at eu targedau yn gywir.

Mae staff yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion berfformio, gan gynnwys cynyrchiadau blynyddol ar gyfer disgyblion iau a hŷn fel ei gilydd. Yn ychwanegol, caiff disgyblion o bob oedran gyfle i ennill cymwysterau siarad cyhoeddus a chymryd rhan mewn ystod eang o berfformiadau, fel trafod a digwyddiadau 'meic agored'. Mae'r ysgol yn dathlu ei threftadaeth Gymreig yn llwyddiannus trwy ei hamgylchedd a gweithgareddau fel yr Eisteddfodau blynyddol.

Mae staff yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol lleol. Er enghraifft, mae'r llu cadetiaid cyfunol yn cyfrannu at wasanaeth blynyddol Dydd y Cofio, ac mae disgyblion yn helpu tacluso mynwent yr eglwys leol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gefnogi achosion elusennol lleol a rhyngwladol yn rheolaidd. Er enghraifft, trwy fenter 'cymorth her' leol, mae'r ysgol yn helpu cefnogi ysgolion yn Affrica. Trwy'r gwaith hwn, caiff disgyblion ymdeimlad o helpu pobl sy'n byw mewn amgylchiadau heriol.

Yn yr ysgol hŷn, ceir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain trwy ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, gallant ddod yn aelod o'r cyngor ysgol neu'n gapten chwaraeon neu gerddoriaeth, sy'n swyddi a ddelir gan lawer o ddisgyblion ag ADY. Fodd bynnag, mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion yn yr ysgol baratoadol ddatblygu eu medrau arwain neu ymgymryd â chyfrifoldebau.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol. Ceir system sefydledig i adrodd am bryderon diogelu ynghylch disgyblion, ac mae'r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff yn gwybod sut i adrodd am bryder a allai fod ganddynt am uwch aelodau staff. Mae'r swyddog diogelu dynodedig yn darparu arweinyddiaeth gref i staff, gan gynnwys hyfforddiant diweddaru diogelu rheolaidd, er enghraifft ar adnabod effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer recriwtio mwy diogel, ac yn sicrhau bod pob aelod staff newydd yn cael gwybodaeth am ddiogelu pan gânt eu penodi'n fewnol. Fodd bynnag, nid yw gwiriadau i sicrhau bod pob aelod o staff a ddarperir gan asiantaethau allanol yn cael hyfforddiant diogelu wedi'u hymgorffori cystal.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu heriau sylweddol, sy'n cynnwys pandemig COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn, cymerwyd camau cyflym a

phendant gan y corff llywodraethol a'r warden presennol, gyda chymorth yr ymddiriedolwyr, i helpu sicrhau sefydlogrwydd a thwf yr ysgol yn y dyfodol. Ar ôl magu hyder y rhan fwyaf o'r staff, mae'r warden wedi gweithio'n llwyddiannus gyda nhw i sicrhau parhad y ddarpariaeth, a chefnogi lles a dysgu disgyblion trwy gydol y cyfnod anodd hwn i'r ysgol.

Ers eu penodi, mae'r warden ac uwch arweinwyr eraill wedi blaenoriaethu camau gweithredu i gryfhau ethos cymunedol gofalgar yr ysgol. Mae'r ymagwedd hon yn amlwg mewn datblygiadau diweddar fel diwygio'r strwythurau tai a'r strwythurau bugeiliol i gynorthwyo disgyblion yn well, a chyflwyno gwasanaeth cymorth i gyflogeion ar gyfer staff. Fe'i hadlewyrchir hefyd yn yr amrywiaeth werthfawr o bartneriaethau strategol y mae'r ysgol wedi'u hymestyn er budd disgyblion a staff, er enghraifft gyda chwaraeon cenedlaethol a sefydliadau addysg lleol.

Ar y cyd ag uwch arweinwyr, mae'r warden yn darparu cyfeiriad cryf ar gyfer holl feysydd gwaith yr ysgol, gyda blaenoriaethau strategol a chamau gweithredu allweddol sy'n briodol gan mwyaf. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys ailstrwythuro rolau arwain a diwygio cyfrifoldebau i ganolbwyntio mwy ar gynllunio gwelliant a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Ceir strwythur defnyddiol o gyfarfodydd sy'n ychwanegu at y rolau diwygiedig hyn a help i gynorthwyo staff ar bob lefel i gyflawni eu cyfrifoldebau. Caiff rolau a chyfrifoldebau staff eu hamlinellu'n glir ar cyfan mewn swydd ddisgrifiadau manwl a phenodol, ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'u rôl unigol, yn gyffredinol. At ei gilydd, nid yw swydd ddisgrifiadau arweinwyr a staff addysgu yn rhoi ffocws digon cryf ar gyfrifoldebau ar gyfer cynnydd disgyblion, gwella ansawdd yr addysgu a chodi safonau. Mewn ychydig o achosion, nid oes digon o eglurder am gyfrifoldebau penodol i alluogi staff i nodi trefniadau rheoli llinell yn rhwydd.

Mae trefniadau arfarnu'r ysgol a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn ffordd effeithiol o adolygu gwaith staff, gosod blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodi cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol. Lle nodwyd tanberfformio, ymdriniwyd â hyn mewn modd sensitif a chefnogol.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar wybodaeth fanwl am waith yr ysgol, y materion sy'n effeithio arni a chryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae perthynas weithio fuddiol rhwng llywodraethwyr ac uwch arweinwyr, a gyda'i gilydd, maent yn pennu blaenoriaethau ac yn cytuno ar gynlluniau gweithredu realistig. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol trwy herio'r ysgol, lle bo'n briodol. Mae'r ymddiriedolwyr, y corff llywodraethol a'r warden hefyd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn cael ei rheoli'n ddarbodus. Maent yn amlinellu blaenoriaethau clir ar gyfer gwariant ac yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng y rhain ac anghenion yr ysgol yn y tymor byr a'i dyheadau hirdymor.

Mae'r broses adolygu cyfadrannau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cynnwys disgyblion a staff addysgu yn briodol ym mhrosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol. Er ei bod yn rhy gynnar i werthuso effaith lawn yr adolygiad ar ddysgu a lles disgyblion, ac ansawdd yr addysgu, mae uwch arweinwyr yn dechrau ystyried y deilliannau i helpu llywio cynllunio gwelliant strategol.

Nid yw llawer o brosesau cynllunio gwelliant yr ysgol a dogfennau cysylltiedig yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion, y safonau a gyflawnir ganddynt, ac

ansawdd yr addysgu. O ganlyniad, nid yw trefniadau'r ysgol i werthuso cynnydd tuag at wneud gwelliannau yn y meysydd pwysig hyn yn ddigon effeithiol. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn ystyried effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion pan fyddant yn cwblhau arsylwadau gwersi.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr a staff yn datblygu diwylliant dysgu proffesiynol cadarnhaol sy'n helpu meithrin gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgu a lles disgyblion. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol unigol wedi eu cysylltu'n glir â phroses arfarnu a blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau hyn, er enghraifft, yn cynnwys y ffocws diweddar ar gynllunio i fodloni anghenion dysgu unigol ystod eang o ddisgyblion, a delio â thrawma a phroblemau iechyd meddwl i gefnogi lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchennog/perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (Gwefan Estyn)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: Gwefan Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  06/05/2022